

Testunau: Nodiadau Dysgu

Cerddi i'r gysegrfa ym Mhenrhys

Mae'r cerddi yn gymhleth, yn awgrymog, ac yn anodd eu dehongli! Mae'n rhaid i ni ddarllen rhwng y llinellau. Rhaid i ni gofio hefyd bod y beirdd yn rhyw fath o bobl PR - cysylltiadau cyhoeddus - eu dydd. Roedden nhw'n cael cefnogaeth noddwyr fel tirfeddiannwyr a'r abatai, a bydden nhw'n ysgrifennu eu cerddi i blesio eu noddwyr. Ar y llaw arall fe fydden nhw'n ysgrifennu eu cerddi ar gyfer eu perfformio'n gyhoeddus ac felly gallwn dybio bod eu gweithiau yn dderbyniol gan gynulleidfa ehangach.

O'r disgrifiadau o'r cerflun, mae Mair yn sefyll a Iesu yn ei breichiau. Mae'n plygu drosto i'w gusanu. Mae'n ddelwedd o gariad tyner mam. Ond mae Mair hefyd yn gwisgo coron sy'n ddelwedd o bwer. Ydi'r "llaw euraidd" yn golygu bod y cerflun wedi ei oreuro, neu ai trosiad yw e? Mae "llaw" hefyd yn gallu golygu "awdurdod, rheolaeth" ac efallai yn bwysicach "medr, cyffyrddiad" : felly fe all "llaw'n euraidd" fod ag ystyr ffigurol iddo, "Dwylo'n iachâu".

Mae cyfeiriad Gwilym Tew at "Fara 'fferen a dwr swyn" yn awgrymu bod 'na eglwys ar y safle. Ac yn ôl ffynonellau eraill hefyd a'r ffordd mae'r safle yn edrych heddiw 'roedd ffynnon sanctaidd yno: sef yr "eirw crych" yng ngeiriau Rhisiart ap Rhys. Mae Lewys Morgannwg yn son am rai oedd yn glaf yn cael eu bedyddio ynddi.

Yn ôl y chwedl fe ymddangosodd y cerflun yn wyrthiol mewn derwen, ac roedd hi'n amhosib ei symud o'r fan.

Mae'r beirdd yn cyflwyno rhestr faith o bobl oedd yn diodde o afiechyd meddwl a chorfforol a aeth yno i gael iachad, a hefyd morwyr a gafodd eu hachub o stormydd ar y môr. Cafodd Mair ei disgrifio mewn emyn o'r oesoedd canol fel "Stella Maria", seren y môr.

Efallai iddyn nhw gerdded, neu fynd ar gefn ceffyl. Pan ddywed Gwilym Tew ei fod yn mynd ar ei liniau, mae'n bosib ei fod yn golygu iddo wneud hynny yn ddefosiynol, wrth ddringo'r rhan ola o'r daith, neu hwyrach am ei fod wedi llwyr ymlâdd wrth ddringo'r rhiw serth i'r gysegrfa. Neu, wrth gwrs, fe all olygu ei fod ar gefn ceffyl ac yn cario kannwyll enfawr ar ei liniau. Os allech chi, fe fydddech yn dod â channwyll o'r un taldra â chi fel offrwm. Os na allech chi fforddio hynny, fe fydddech yn mesur eich hun neu yr un y bydddech yn gweddio drosto, gyda phabwyr y gannwyll, a wedyn ei amblygu i wneud kannwyll fer. Roedd hyn yn

cael ei alw yn "mesur dy hunan i'r sant". Roedd rhai yn dod â modelau cwyr o'u hunain neu o ran o'r corff oedd angen ei iachau. Fe allai rhain gael eu gwneud yn ganhwylau ar gyfer y gysegrfa. Efallai mai rosari oedd "llaswyr" Lewys Morgannwg neu "llaswyr lleiaf" sef llyfr bach o weddïau, yn ddefosiwn i'r Forwyn Fair. Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio yn ffigurol am y rosari, sef set o leiniau (beads) oedd yn eich tywys chi trwy baderau neu weddïau a myfyrdodau ar y Forwyn Fair.

Mae'n ymddangos bod Elspeth Matthew yn ferch ddibriod i deulu pwysig Matthew, Cwrt Radur, yng ngogledd Caerdydd. Roedd hi'n gofalu am y pererinion hynny oedd yn sâl ac ar eu ffordd o Landaf i Benrhys. Byddai hefyd yn anfon offrymau i'r gysegrfa, ond mae'n debyg nad oedd hi ei hun wedi mynd yno. Efallai iddi ystyried ei hun fel "begines", oedd wedi gneud adduned i fyw bywyd crefyddol y tu allan i gwffaint, gan ymroi i ofalu am gleifion a'r anghenus.

Gall myfyrwyr ddefnyddio eu dychymyg i geisio ail-greu rhai o'r storïau am y gwyrthïau, ar sail y cyfeiriadau byr yng ngherdd Lewys Morgannwg - atgyfodi dyn oedd wedi marw, un arall wedi ei dderbyn yn ddiogel yn y nefoedd, mudan yn gallu siarad dau air - "mea culpa" mae'n bosib (trwy "fy mai fy hun", y geiriau ar ddechrau gweddi'r gyffes - fel ei fod yn cyffesu ac yn cael maddeuant), iachau'r dall a'r afiach eu meddwl, y dyn byddar sy'n gallu clywed a chlwyf sy'n llefain, dyn sy'n gallu taflu ei ffyn baglau a cherdded. Mae'r cyfeiriadau byr efallai yn awgrymu bod y storïau am y gwyrthïau yn rhai adnabyddus ac felly, 'doedd dim angen eu hail-adrodd yn llawn.

Chwalu'r gysegrfa

Mae'n anodd i ni ddeall heddiw pa mor gryf oedd y teimladau ynghylch y cysegrfeydd yma, a'r rheswm dros eu chwalu. Roedd gan Latimer, Cromwell a'u cyd ddiwygwyr Protestanaidd achos dilys i boeni bod perygl i bobl addoli cerfluniau, a mawrygu seintïau yn hytrach na chyfeirio eu paderau at Dduw. Roedden nhw hefyd yn gofidio bod pobl yn dibynnu ar weihgareddau fel pererindota i'w hachub, tra bod y diwygwyr yn credu mai dim ond eu ffydd a allai eu helpu.

Fe gafodd William Herbert ei orchymyn i ddymchwel y gysegrfa am ei fod yn dirfeddiannwr lleol, gydag hygredded pobl yr ardal. Mae naws gwasaid ei lythyr yn rhannol yn cydfynd ag arfer y cyfnod ond mae hefyd yn awgrymu ei awydd ei blesio Cromwell er mwyn cael mwy o waith ganddo - ond mae ei ddisgrifiad o gerflun Ein Harglwyddes yn groes i ddisgrifiad di-chwaeth Latimer. Mae'n amlwg ei bod hi'n anodd i Herbert ac roedd e'n methu cyflawni'r dasg yn dawel ac yn ddi-ffws yn ôl y gorchymyn a gafodd - roedd ganddo gynulleidfa.

Mae nifer o resymau wedi cael eu hawgrymu. Efallai bod y dasg yn fwy anodd iddo nag oedd e'n barod i gyfaddef. 'Doedd e ddim am ymddangos ei fod yn analluog i'w chyflawni, a hwyrach hefyd ei fod am amddiffyn pobl leol. Yn olaf, mae'n bosib, wrth ohirio'r dasg, y byddai hynny'n rhoi digon o amser i wneud copi o'r cerflun.

Yr Athro Madeleine Gray

Prifysgol De Cymru